
Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# 2020 DAN ADOLYGIAD



# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN 2020

## Ionawr

- Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd a 'Chymru Iachach'

## Chwefror

- Beth yw barn plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd am ofal?
- Pwysigrwydd ymgysylltu: sicrhau bod gan y cyhoedd lais yn nyfodol iechyd a gofal cymdeithasol Cymru
- Cyflawni Pontio Cyfiawn: sut olwg fyddai arno?
- Diwedd llymder a dechrau Brexit
- Beth sy'n gweithio wrth heneiddio'n well?

## Mawrth

- Dulliau rhyngwladol o reoli lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
- Cynyddu effaith y rhwydwaith What Works ledled y DU
- Gweithio at gyflawni economi wydn
- Beth ydyn ni ac nad ydyn ni'n ei wybod am heneiddio'n well yng Nghymru

## Ebrill

- Unigrwydd yn ystod y cyfnod clo
- Digartrefedd ymhlith pobl ifanc: symud tuag at atal
- A yw broceriaeth gwybodaeth yn hwyluso polisi ar sail tystiolaeth? Adolygiad o'r wybodaeth bresennol ac agenda ar gyfer ymchwil yn y dyfodol (Polisi a Gwleidyddiaeth)

## Mai

- A all Prentisiaethau Ymchwil agor y drws i yrfa ym maes polisi?
- Pan fydd hyn i gyd ar ben: gwella o'r Coronafeirws
- Goblygiadau pandemig y Coronafeirws i economi Cymru
- Sgwrs PEP Pennod 5: Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn ystod y cyfnod clo

## Mehefin

- Clapio ar ôl y Coronafeirws: goblygiadau pandemig y Coronafeirws i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Ailadeiladu ar ôl pandemig y Coronafeirws: cynnal etifeddiaeth o wirfoddoli
- Rôl llywodraeth leol Cymru mewn byd wedi'r Coronafeirws
- Ailadeiladu'n well: pwysigrwydd ysgogiad gwyrdd
- Pandemig y Coronafeirws - cyfle ar gyfer entrepreneuriaid polisi?
- Sefyllfaoedd ariannol bregus yn ystod y pandemig: cyfyng-gyngor i awdurdodau lleol
- Pandemig y Coronafeirws a chost iechyd

## Gorffennaf

- Cynllunio ar gyfer adferiad ffyniannus, cyfartal a gwyrdd ar ôl pandemig y Coronafeirws
- 20 yw'r terfyn: sut i annog gostyngiadau cyflymder
- Sut byddwn ni'n cyllido gofal cymdeithasol?
- Datganoli a phandemig y Coronafeirws yng Nghymru: gwneud pethau'n wahanol, gwneud pethau gyda'n gilydd?

## Awst

- Goblygiadau Brexit i incwm cartrefi
- Rôl hanfodol addysg drydyddol

## Medi

- Opsiynau polisi ar gyfer cyfleoedd pysgota yng Nghymru
- Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
- Datblygu arweinwyr yn y sector cyhoeddus
- Ymyriadau cam-drin domestig yng Nghymru
- Ymgynghoriad Cymru Ein Dyfodol: Dadansoddiad o'r ymatebion
- Polisi mudo'r DU a gweithlu GIG Cymru
- Sgwrs ar Ddyfodol Cymru

## Hydref

- Sgwrs PEP Pennod 6: Mynd i'r afael ag unigrwydd yn ystod y cyfnod clo a'r tu hwnt i'r cyfnod clo - rôl cyfathrebu da
- Beth mae Brexit yn ei olygu i weithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru?

## Tachwedd

- Adfer o bandemig y Coronafeirws
- Ymfudo ar ôl Brexit a Chymru
- Cefnogi grwpiau a dangynrychiolir i gael penodiadau cyhoeddus
- Cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus
- Adeiladu ar sylfeini cryf: ymateb gwirfoddolwyr i'r pandemig yng Nghymru
- Pam mae amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yn bwysig
- Cefnogi iechyd meddwl a lles mewn pysgotwyr a chymunedau pysgota
- Yn raddol ac yna i gyd ar unwaith – System ymfudo pwyntiau newydd y DU a busnesau bach a chanolig

## Rhagfyr

- Modelau gwahanol o Ofal Cartref
- Dylunio gwasanaethau a alluogir gan dechnoleg i fynd i'r afael ag unigrwydd
- Hunanladdiad ymhlith Dynion
- Goblygiadau pontio Ewropeaidd i sectorau allweddol o economi Cymru
- Defnyddio cyfleoedd pysgota i gefnogi iechyd meddwl a lles yn niwydiant pysgota Cymru
- Beth allai gwyddoniaeth gweithredu a mobileiddio gwybodaeth ei olygu i Ganolfannau What Works?
- Gofalu am y Sector Gofal: Sut Gallwn Ni Gefnogi Modelau Newydd ar gyfer Cartrefi Gofal
- Beth sy'n bwysig wrth weithredu polisïau datblygu cynaliadwy? Canfyddiadau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Cyfnodolyn Polisi a Chynllunio Amgylcheddol)

### Allwedd

- Blog
- Digwyddiad
- Podlediad
- Adroddiad
- Erthygl cyfnodolyn

# Cyflwyniad

2020 oedd y flwyddyn pan ddaeth 'dilyn y wyddoniaeth' yn fater o fyw neu farw. Yma yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru buom yn gweithio'n ddiflino gyda gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu tystiolaeth annibynnol awdurdodol, nid yn unig ar bandemig y Coronafeirws ond ar ystod eang o bynciau eraill sydd wrth wraidd dadleuon polisi cyfredol.

Wrth gwrs, treuliwyd llawer o'n hamser ar y pandemig a'r mater polisi mawr arall yn ystod y deuddeg mis diwethaf - Brexit. Gwnaethom ddadansoddi goblygiadau ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer masnach, pysgodfeydd, ymfudo, a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. A gwnaethom gyhoeddi cyfres o adroddiadau ar ganlyniad economaidd a chymdeithasol y pandemig ac ar strategaethau ar gyfer adeiladu yn ôl yn well ac yn decach.

Gwnaethom hefyd fynd i'r afael â rhai heriau hirdymor pwysig eraill. Cwestiynau fel:

- Sut i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol?
- Sut allwn ni wella rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yng ngofal awdurdod lleol?
- Sut ydyn ni'n sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y gofal cartref o ansawdd uchel y maen nhw'n ei haeddu?
- Pa sefydliadau a seilwaith fydd yn gyrru cynhyrchiant ac yn cynyddu gwytnwch economi Cymru?
- Sut mae Cymru'n datblygu arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol ac yn sicrhau bod y rhai mewn swyddi uwch yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynhyrchu mwy na 60 o adroddiadau a sylwebaethau ar y pynciau hyn ac eraill, ynghyd â sesiynau briffio polisi, podlediadau, gweithdai arbenigol a digwyddiadau cyhoeddus. Rydym wedi gweithio'n agos gydag ymchwilwyr blaenllaw o bob cwr o'r byd ac wedi sicrhau bod Cymru'n parhau i gyfrannu at rwydwaith What Works y DU ac yn elwa ohono.

Mae'r galw am ein gwaith a'r diddordeb ynddo wedi parhau i dyfu ac mae hyn yn dyst i ymroddiad, gallu a gwytnwch y tîm cyfan yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â chefnogaeth ein Grwpiau Cyfeirio Gwasanaethau Cynghori a Chyhoeddus ac, yn bwysicaf oll, ymrwymiad gweinidogion, swyddogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod polisïau'n cael eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Rydyn ni'n diolch iddyn nhw, ein cyllidwyr craidd - y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru - a phawb sydd wedi gweithio gyda ni yn yr hyn a brofodd i fod yn ddeuddeg mis hynod heriol, ond cynhyrchiol iawn.

## Yn 2020...

**Lawrlwythwyd ein hadroddiadau 5678 gwaith, 31% yn fwy nag yn 2019**

**Cynyddodd traffig i'n gwefan gan fwy na 51% o gymharu â ffigurau 2019**

**Enillom dros 460 o ddilynwyr newydd ar Twitter a 371 o danysgrifwyr newydd i'n cylchlythyr**

# Amdanom ni

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at a defnyddio tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill.

Mae'r Ganolfan yn:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; a
- Thynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: **www.wcpp.org.uk**



# Effaith Brexit

I nodi ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, gwnaethom wahodd Guto Ifan (o Ganolfan Llywodraethiant Cymru) a Gareth Williams (Cynghorydd Arbennig i Lywodraeth Cymru ar Brexit a Phontio Ewropeaidd) i roi'r prif anerchiadau mewn cynhadledd a drefnwyd gennym ar oblygiadau Brexit i'r economi a chysylltiadau rhyng-lywodraethol. Tynnodd Gareth sylw at y goblygiadau gwleidyddol a pholisi mawr sy'n wynebu Cymru. Arweiniodd Guto ni trwy'r goblygiadau ar gyfer cyllid cyhoeddus.

## Yr Economi

Er mwyn helpu i lywio ymateb Llywodraeth Cymru i Brexit, amlygodd ein hadroddiad ar oblygiadau Brexit i sectorau allweddol economi Cymru yr heriau a'r addasiadau sylweddol sy'n wynebu llawer o fusnesau a'r mathau o gefnogaeth y bydd eu hangen arnynt yn y byrdymor a'r tymor hwy.

## Pysgodfeydd

Un o'r rhwystrau allweddol yn y trafodaethau masnach UE-DU oedd y diwydiant pysgota. Gwnaethom archwilio'r opsiynau polisi ar gyfer cyfleoedd pysgota yng Nghymru ar ôl Brexit, a sut maent yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Nododd yr adroddiad lawer o'r problemau i bysgota yng Nghymru sydd wedi ymddangos yn y penawdau wedi hynny ac sy'n debygol o fod yn ganolbwynt i drafodaethau mewn blynyddoedd i ddod.

## Incwm cartrefi

Nododd ein hadroddiad ar oblygiadau Brexit i incwm cartrefi a chyllidebau yng Nghymru y grwpiau a'r rhannau o Gymru sy'n arbennig o agored i'r risgiau cyfun sy'n gysylltiedig â Brexit a phandemig y Coronafeirws, gan argymell cyfres o gamau i liniaru'r effeithiau arnynt.




# Yr Economi a Masnach

## Cryfhau gwytnwch economaidd

Yn wyneb ansicrwydd economaidd, o ganlyniad i Brexit a phandemig y Coronafeirws, mae angen i lunwyr polisi wybod sut i helpu i gryfhau gwytnwch economaidd economïau. Gan dynnu ar dystiolaeth o'r DU, Ewrop a Gogledd America, archwiliodd ein hadroddiad y gwahanol fathau o wytnwch sydd eu hangen ar Gymru a pholisïau a all ei helpu i ddatblygu'r rhain.



## Adfer o bandemig y Coronafeirws

Dadleuodd ein hadroddiad ar gefnogaeth i fusnesau brodorol a thwf carbon isel fod cefnogi'r economi sylfaenol a buddsoddiad mewnol yn strategaethau cyd-fuddiol y mae angen eu datblygu ochr yn ochr. Roedd yn argymell darparu cymhellion i leoleiddio cadwyni cyflenwi a buddsoddi mewn sgiliau ac addysg a chyflwyno cynlluniau cadw ymfudwyr a graddedigion fel bod gan fusnesau brodorol a buddsoddwyr mewnol fynediad at gronfa o weithwyr medrus.

Mewn adroddiad cysylltiedig ar gyfalaf dynol, sgiliau ac Addysg Bellach ac Uwch, gwnaethom ddangos pwysigrwydd polisïau marchnad lafur rhagweithiol i gefnogi gweithwyr iau, menywod a'r rheini o gefndiroedd BAME sydd ar yr incwm isaf, sydd fwyaf tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi yr effeithir arnynt gan y cyfnod clo ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddiweithdra neu dangyflogaeth. Gwnaethom argymell buddsoddiad strategol mewn seilwaith, arloesi, datblygu sgiliau a dysgu gydol oes.

# Plant sy'n Derbyn Gofal



Bu pryder cynyddol am nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r angen am becynnau gofal cymhleth wedi ei gwneud hi'n anodd ac yn ddrud sicrhau lleoliadau digonol ac addas, ac mae'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn aml wedi bod yn wael.

Dadansoddodd ein hadroddiad, Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at Gyfraddau Gofal Uchel yng Nghymru, y ffactorau sy'n sbarduno'r cynnydd cyffredinol a'r amrywiadau sylweddol rhwng gwahanol rannau o Gymru. Gwelsom fod llawer o'r amrywio'n cael ei briodoli i amddifadedd (yn enwedig y 'triawd sbarduno' - cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau ymysg rhieni ac afiechyd meddwl rhieni). Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yn y ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried risg ac yn cefnogi teuluoedd hefyd yn chwarae rhan bwysig.

Gwnaethom adolygu tystiolaeth ryngwladol i nodi ffyrdd o wella ansawdd a sefydlogrwydd lleoliadau yng Nghymru ac felly gynhyrchu gwell canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc. Nododd ein hadroddiad ar brofiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd o'r system ofal gyfres o ganfyddiadau pwysig ar gyfer llunwyr polisi ac ymarferwyr. Ac roedd ein hadolygiad rhyngwladol o arferion yn canolbwyntio ar gomisiynu lleoliadau gofal. Amlygodd hyn bwysigrwydd cydbwyso ail-uno a sefydlogrwydd mewn ymarfer lleoliad, gwrando ar lais y plentyn a'r teulu mewn penderfyniadau lleoli, a chyflawni cyfuniad o ddarpariaeth gyhoeddus, breifat a thrydydd sector.

# Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol

Ddeunaw mis yn ôl, lansiwyd rhaglen o waith yn dadansoddi ffyrdd o leihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol a'u heffaith ar iechyd corfforol a meddyliol. Gwnaeth y pandemig hwn yn fater pwysicach fyth yn 2020.

Dangosodd ein hadroddiad, Unigrwydd yn y Cyfnod Clo, sut mae unigrwydd wedi cynyddu ymhlith grwpiau oedran iau, yn ogystal â rhai hŷn, a'i fod yn cael effaith niweidiol ar les, yn enwedig ar oedolion sy'n byw ar eu pen eu hunain, pobl sy'n dioddef o iechyd gwael a'r rhai mewn tai gwael.

Daeth technoleg yn offeryn pwysig ar gyfer cysylltu ag eraill yn sgil y cyfyngiadau i atal lledaeniad y Coronafeirws, ac archwiliodd ein podlediad gyda'r Athro Julie Barnett (Prifysgol Caerfaddon) rôl technoleg yn lliniaru unigrwydd.

Dangosodd ein hadroddiad, Dylunio gwasanaethau a alluogir gan dechnoleg i fynd i'r afael ag unigrwydd, fod allgáu digidol yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau sy'n agored i unigrwydd, gan gynnwys pobl hŷn ac aelwydydd incwm isel, gan argymell camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn.



Archwiliodd ein podlediad gyda Clare Delargy (Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol) a Robin Hewings (Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd) bwysigrwydd cyfathrebu ystyrlon, clir ac effeithiol gan y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo.

Mae gan bobl leol, cymunedau a'r trydydd sector yng Nghymru ran fawr i'w chwarae ac mae llawer wedi ymateb yn hyblyg ac yn arloesol i'r pandemig. Gwnaeth ein fideo archwilio rôl grwpiau llawr gwlad a chyd-gymorth lleol wrth fynd i'r afael ag unigrwydd ar lefel cymdogaeth. Rydym nawr yn cynnal ymchwil bellach i archwilio sut mae cymunedau wedi ceisio mynd i'r afael ag unigrwydd yn ystod y pandemig.



# Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## 20 yw'r terfyn: sut i annog gostyngiadau cyflymder

Ym mis Gorffennaf 2020, pleidleisiodd y Senedd i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar bob ffordd breswyl yng Nghymru fel rhan o gyfres o fesurau i hyrwyddo cymunedau 'byw'. Mae ein hadroddiad yn archwilio ffyrdd o annog y newid sylweddol mewn agweddau ac ymddygiad gyrwyr y bydd ei angen ar gyfer y terfyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd hon.




## Adfer o bandemig y Coronafeirws: Rheoli tir, teithio a thrafnidiaeth

Mae pandemig y Coronafeirws wedi newid y ffordd y mae llawer ohonom yn gweithio, gyda gweithio gartref bellach yn normal newydd i lawer o bobl. Nododd ein hadroddiad ar reoli tir a theithio ffyrdd o annog gweithio mwy hyblyg a phwysigrwydd newid patrymau teithio i'r gwaith i leihau allyriadau carbon ar ôl y pandemig. Tynnodd sylw hefyd at yr angen am gefnogaeth i ffermwyr i ddatblygu sgiliau newydd i arallgyfeirio'r defnydd o'r tir y maent yn ei reoli mewn ffordd sy'n ymarferol yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol.

## Adfer o bandemig y Coronafeirws: Ynni adnewyddadwy, tai a chanol trefi

Bydd adferiad gwyrdd o'r pandemig yn gofyn am ail-feddwl ein defnydd o ynni, dyluniad tai a chanol trefi. Archwiliodd ein hadroddiad ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru annog ail-bwrpasu canolfannau trefol, hybu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy a chynyddu ac uwchraddio stoc dai. Nododd rwystrau i lwyddiant, gan gynnwys polisïau cynllunio presennol a chydlyniad annigonol ymhlith cyrff cyhoeddus, ac amlygodd bwysigrwydd symudoli cymunedau lleol i helpu i lunio dyfodol eu hardaloedd.

# Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

## Cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus

Nid yw byrddau llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Nododd ein hadroddiad ar gynyddu amrywiaeth ffyrdd o gefnogi ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig ac ymgeiswyr anabl i ymgeisio'n llwyddiannus am benodiadau cyhoeddus a llywio Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Mae ail adroddiad yn ystyried sut i ddarparu gwell cefnogaeth i ymgeiswyr sy'n 'methu o drwch blewyn' a darpar ymgeiswyr mewn grwpiau a dangynrychiolir i wneud cais am benodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

## Adfer o bandemig y Coronafeirws: Gwasanaethau cyhoeddus digidol a thegwch rhwng y cenedlaethau

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cyflymu symudiadau i gynnig llawer o wasanaethau cyhoeddus ar-lein. Daeth ein hadroddiad ar wasanaethau cyhoeddus digidol i'r casgliad fod gan hyn botensial enfawr i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft trwy gofnodion iechyd electronig, e-ragnodi, cofnodion gofal a rennir, monitro o bell, a synwyryddion cwympo. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau digidol yn briodol i gleifion bregus sydd angen gofal amlddisgyblaethol cymhleth y bydd angen iddynt barhau i gael mynediad at wasanaethau personol o ansawdd uchel.



## Datblygu arweinwyr yn y sector cyhoeddus

Gwnaethom ddadansoddi'r dulliau presennol yng Nghymru o ddatblygu arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol a'r rôl y gall Academi Cymru ei chwarae wrth sicrhau bod gan bob rhan o'r sector cyhoeddus fynediad at hyfforddiant a datblygiad o ansawdd uchel a bod cefnogaeth dda ar gael i ddarpar arweinwyr o gefndiroedd anhraddodiadol.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion

### Ymyriadau cam-drin domestig

Profodd 1.6 miliwn o fenywod yng Nghymru a Lloegr drais domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2019. Amlygodd ein hadolygiad o'r dystiolaeth ar ymyriadau i fynd i'r afael â cham-drin domestig yr angen am ddull cyfannol i fynd i'r afael â'r problemau a gwelliannau wrth lywodraethu darpariaeth lloches ac ymyriadau eraill.

### Hunanladdiad ymhlith Dynion

Dynion oedd yn gysylltiedig â thri chwarter y marwolaethau trwy hunanladdiad yng Nghymru a Lloegr yn 2019, ond mae risgiau hunanladdiad dynion yn fater sy'n cael ei anghofio. Archwiliodd ein hadroddiad y grwpiau mwyaf agored i niwed a'r dystiolaeth am y ffactorau sy'n gyrru codiadau mewn cyfraddau hunanladdiad ymhlith dynion.

### Modelau gwahanol o ofal cartref

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu bod galw cynyddol am ofal cartref o ansawdd uchel. Archwiliodd ein hadolygiad o arfer rhyngwladol fodelau amgen o ddarpariaeth gofal o rannau eraill o'r DU, yr Iseldiroedd, Sweden a Quebec y gallai Cymru eu haddasu er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw staff.

# Defnyddio Tystiolaeth a Llunio Polisi Effeithiol

### Adfer o bandemig y Coronafeirws: Cyflenwi a chyllido gwasanaethau cyhoeddus

Amlygodd ein hadroddiad ar ddarparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol bwysigrwydd cynyddu sgiliau caffael, hyrwyddo modelau newydd o ofal cymdeithasol a buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd o ansawdd uchel ac sy'n ddiogel yn wyneb COVID-19.

### Ymgynghoriad Cymru Ein Dyfodol: Dadansoddiad o'r ymatebion

Ym mis Mai 2020, gwahoddodd Llywodraeth Cymru y cyhoedd i anfon eu syniadau am gamau i gefnogi adferiad ac ailadeiladu wedi COVID-19. Gwnaethom ddadansoddi'r themâu allweddol yn yr ymatebion a gyflwynwyd gan y cyhoedd a oedd yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni gwaith o ansawdd uchel wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

# Ein Grŵp Cynghori

Mae'r Ganolfan yn elwa o gyngor a chefnogaeth Grŵp Cynghori sy'n cynnwys unigolion adnabyddus sy'n dod o'r byd academaidd, y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

**Stephen Aldridge** yw'r Cyfarwyddwr ar gyfer Dadansoddi a Data yn y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae'r **Athro Annette Boaz** yn Athro mewn Ymchwil Gofal Iechyd yn y Ganolfan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol San Siôr, Llundain a Phrifysgol Kingston.

**Yr Athro Alice Brown** yw Cadeirydd Cyngor Cyllid yr Alban ac mae'n Athro Emeritws Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caeredin.

**Dr Carol Campbell** yw Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Gwybodaeth ar gyfer Ymchwil Addysg Gymhwysol – Réseau d'échange des connaissances pour la recherche applique en education.

Mae'r **Dr Jane Davidson** yn gyn-weinidog Llywodraeth Cymru ac yn Ddirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymgysylltiad Allanol a Chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

**Yr Athro Syr Ian Diamond** yw Ystadegydd Cenedlaethol y DU ac mae'n gyn-Bennaeth ac Is-ganghellor Prifysgol Aberdeen.

**Dr Ruth Hall** yw Cyfarwyddwr Anweithredol Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac mae'n gyn-Brif Swyddog Meddygol Cymru.

**Yr Athro Gerry Holtham** yw Athro Hodge yr Economi Ranbarthol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae **Syr Peter Housden** yn gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth yr Alban.

Mae'r **Athro Ruth Hussey** yn gyn-Brif Swyddog Meddygol Cymru a chadeiriodd Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

**Yr Athro Paul Johnson** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol.

**Abdool Kara** yw Arweinydd Gweithredol y Gwasanaethau Lleol yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac mae'n gyn-Brif Weithredwr awdurdod lleol.

**Yr Athro Laura McAllister** yw Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd.

**Dr June Milligan** yw Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil ac mae'n aelod lleyg o gorff llywodraethu Prifysgol Glasgow a chyn-Gadeirydd Pwyllgor Cymru ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Yr Athro Helen Patterson** yw'r Prif Weithredwr yng Nghyngor Bwrdeistrefol Metropolitanaidd Walsall.

**Yr Athro Nick Pearce** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Polisi ym Mhrifysgol Caerfaddon ac mae'n gyn-bennaeth Uned Polisi 10 Stryd Downing a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.

Mae **Ceridwen Roberts** yn gyn-Gymrawd Ymchwil Uwch yn Adran Polisi Cymdeithasol ac Ymyriad Prifysgol Rhydychen.

Mae'r **Fonesig Dr Jane Roberts** yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn y Brifysgol Agored a chyn-Arweinydd Bwrdeistref Llundain Camden.

Mae **Michael Trickey** yn Uwch-gymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn nhîm Dadansoddi Cyllidol Cymru Prifysgol Caerdydd.

**Yr Athro Syr Adrian Webb** yw Cadeirydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi a'r Gronfa Loteri Fawr, Cymru, ac mae'n gyn-Is-ganghellor prifysgol ac Athro Polisi Cymdeithasol.



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


Prifysgol Caerdydd
10/12 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP



Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

UKRI
Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government